Numb. 17685. [ 521 ]

# The London Gazette.

## Published by Authority.

SATURDAY, MARCH 3, 1821.

*Lord Chamberlain's-Office, February 26, 1821.*

NOTICE is hereby given, that His Majesty will hold a Drawing-Room at Buckingham-Palace, on Thursday the 22d of March next, at two o'clock.

---

*Whitehall, February 24, 1821.*

THE King has been pleased to command that, in the present and in all future years, His Majesty's Birth-day shall be, in all respects, observed and kept on the 23d day of April; excepting when that day shall fall on Sunday, in which case the same is to be observed and kept on the following day.

---

THE following Addresses have been presented to the King; which Addresses His Majesty was pleased to receive very graciously:

At Ardderchocaf Fawrhydi y Brenin.

Cyfarchiad Ffyddlon a Pharchus Trigolion Plwyf Llangyfelach.

*Rasusaf Benllywydd,*

NYNI, Deiliaid ufydd a ffyddlon eich Mawrhydi, trigolion Plwyf helaeth Llangyfelach, cynnylledig yn Llangyfelach, yn swydd Forganwg, ydym yn atolygu cerad i nesâu eich Gorseddfainc, gyda ynn sierwydd mwyaf gwresog o'n hymlyniad parhaus ac anghyfnewidiol i berson eich Mawrhydi: ac o'n cadarn penderfyniad i ymddiffyn, hyd eithaf ein gallu, awdurdod oruchel y Senedd, a phob urddas a rhagorfraint perthynol i'ch Coron, megys ag y maent gwedi eu sefydlu ar egwyddorion ein Llywodraeth mwyaf rhagorol.

Gyda'r teimladau o'r diolchgarwch cryfaf yr ydym yn dymuno sôn am eich Tad mwyaf enwog, dan Lywodraeth dadol yr hwn y bu ein dedwyddwch i fyw cyhyd: ac nyni a dderbyniasom ddyfodiad eich Mawrhydi i Deyrngadair eich tadau gyda thaer ddymuniad a gobaith y bydd eich Awdurdod Freninol gael ei defnyddio i ymddiffyn Rhagorfreintiau Crefyddol yn gystal a Gwladol eich pobl.

Yr ydym yn edrych gyda'g atgasrwydd ar y cynygion hyny a wnawd yn ddiweddar i ddadymchwelyd ein ffydd mewn Iachawdwr, a'n gofal penaf fydd i wrthwynebu y cyfyiw athrawiaethau peryglus yn y gymydogaeth hon, ac i feithrin yn dyner y genedl ieuanc i barchu crefydd eu henafiaid, sef, i "ofni Duw, ac anrhydeddu y Brenin." Ac yr ydym yn ymddibynu ar gadernid eich Llywodraeth er gostegu yr holl gyfryw gabledd a phenrhyddid; ac os bydd i fradwriaeth feiddio codi ei ben yn erbyn awdurdod lywodraethol eich Mawrhydi, yr ydym yn feddianol ar yr hyder onest o gredu y bydd i holl Gymru, hyd y dyn diweddaf, ddyfod ymlaen i ymddiffyn eu Duw, eu Gwlad, a'u Brenin.

Yr ydym yn hydern yn noethineb Cynghorwyr eich Mawrhydi am ryw gyflym ostyngiad o'r beichiau trymion hyny ag y mae cyflwr cyfyng Gyflwr y Llywodraeth gwedi ein gosod danynt; a gweddiwn ar Hollalluog Drefnwr pob dygwyddiad, fod i Goron eich Mawrhydi gael ei sefydlu yn serchiadau eich deiliaid, yn y fath fôdd fel ag y byddo eich teyrnasiad yn hir a gogoneddus dros genedl rydd, ddedwydd ac unol.

[Here follow the Signatures.]

[*Presented by Mr. Dillwyn, accompanied by Sir C. Cote, M. P.*]

At Ardderchocaf Fawrhydi y Brenin.

Cyfarchiad Parchus a Ffyddlon Plwyfolion Llandilotalybont yn swydd Forganwg.

*Rasusaff Benllywydd,*

NYNI, ffyddlonaf ac Ufuddaf ddeiliaid eich Mawrhydi, Plyfolion Llandilotalybont ydyn yn deisyf cennad i agosbah 'ch presenoldeb Brenuinol ân hannerch hyn fel tystiolaeth o'n gostyngedig an diffuant ufudd dod ic'h Mawrhydi ac on gwîr lawenydd ar eich esgyniad ded wydd i Orsedfa eich Hynafiaid, gan hyderus obeithio y bydd i chwi i wneuthur ifynu 'r golled ddigyffelib a gawsom trwy farwolaeth ein diweddar Ardderchocaf Frenin. O Feisir dal ddwys deimlad on rhwymedig ddyled tuag at Dduw ein Brenin a'n Gwlad yr ydym fel deiliaid ffyddlon yn ei ystyried yn orphwysedig arnomdau